
# Cyngor Dinas Bangor
# Adroddiad Blynyddol 2025 - 2026





**Cyng Medwyn Hughes**
**Cadeirydd y Cyngor**

**Dr Martin Hanks**
**Cyfarwyddwr Dinesig**

**Swyddfeydd y Cyngor**
**Ffordd Gwynedd**
**Bangor**
**Gwynedd**
**LL57 1DR**

**Ebost: townclerk:bangorcitycouncil.com**
**Ffôn: 01248 352421**

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cynnwys** | 2 |
| **Cyflwyniad** | 3 |
| **Adroddiad Maer 2024-2025** | 3 |
| **Adroddiad Maer 2025-2026** | 4 |
| **Strwythur Cyngor y Ddinas** | 5 |
| **Presenoldeb Cynghorwyr** | 7 |
| **Crynodeb o Weithgareddau Llesiant** | 8 |
| **Crynodeb Ariannol** | 16 |
| **Adroddiad Cyllideb 2025-2026** | 17 |
| **Rhestr Cyfarfodydd** | 27 |

**(1) Cyflwyniad**

Nod yr adroddiad blynyddol hwn yw hysbysu trigolion Dinas Bangor am y gweithgareddau a wnaed gan Gyngor y Ddinas yn ystod y cyfnod Mai 2024 i Ebrill 2025 ac mae'n egluro ei uchelgeisiau ar gyfer blwyddyn ddinesig 2025 – 2026. Bydd yr adroddiad yn cynnwys amlinelliad byr o strwythur y Cyngor, yn cynnwys wardiau etholiadol, y Cynghorwyr a'r staff a bydd hefyd yn rhoi trosolwg o weithgareddau'r Cyngor. Bydd yr Adroddiad hefyd yn egluro sut mae'r Cyngor yn cyfrannu at lesiant ei ardal yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

I ddechrau, ychydig eiriau gan y cyn-Faer, Gareth Parry

***Adroddiad Blynyddol gan Faer blwyddyn 2024-2025***



*Bu'r flwyddyn hon yn un arbennig o brysur. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'r Cyfarwyddwr Dinesig; tîm cyngor y ddinas, fy nghyd-gynghorwyr, yn ogystal â rhanddeiliaid a gwirfoddolwyr eraill sydd wedi rhoi o'u hamser a'u hegni i barhau i wneud Bangor yn gymuned mor fywiog a chefnogol. Diolch yn fawr i chi i gyd.*

*Roedd hi'n anrhydedd cynrychioli'r ddinas yn agoriad swyddogol Gatiau Llifogydd Hirael. Cymerais agwedd gadarnhaol yn y cyfryngau yn dilyn cyhoeddiad ysgafn yn sgorio trefi glan y môr gorau a gwaethaf y DU. Bu'n bleser cynrycholi'r ddinas yn seremonïau graddio haf a gaeaf y Brifysgol, gyda chymorth Cludwr y Brysgyll, Mr John Chamberlain, ac roedd hyn yn gymorth i gadarnhau'r cysylltiadau rhwng y ddinas a'i phrifysgol.*

*Trefnwyd Diwrnod Glanhau'r Ddinas ym mis Gorffennaf, gan ddwyn ynghyd llawer o dddinasyddion gyda chefnogaeth Hogan Brothers Ltd. Diolch o galon i bawb a gymerodd ran a rhannu eu balchder yn ein dinas. Roedd hi'n bleser mawr agor yr ŵyl haf eleni. Diolch i'r trefnwyr a'r gwirfoddolwyr a wnaeth yr ŵyl yn llwyddiant ysgubol.*

*Cydweithio â chymdeithas Jamaica Gogledd Cymru ar adeiladu "Pontydd Cyfeillgarwch" gyda Maypen, Chardenon, Jamaica. Cynrychioli Dinas Bangor ar gyfer dirprwyaeth Genedlaethol Catalonia yn Llundain ar Ddiwrnod Cenedlaethol Catalonia.*



*Cynhaliwyd Sul y Maer ym mis Medi gyda chymorth caredig Cadeirlan Deiniol Sant. Daeth cynulleidfa dda o gymunedau a rhanddeiliaid o bob cwr o'r ddinas, a chodwyd £300 at fanc bwyd y Gadeirlan. Eleni, bu'r Parchedig Ganon Tracy Jones yn gweithredu fel Caplan y Maer, ac rwyf yn hynod o ddiolchgar am ei chefnogaeth, yn ogystal â chefnogaeth clerigwyr a lleygwyr Cadeirlan Deiniol Sant.Diolch hefyd i'r Parchedig Josie Godfrey am lywyddu'r sesiwn holi ac ateb yng Ngŵyl Taranon ac am gyfrannu at gylchgrawn Bro Deinol, "Buchedd". Roedd Sul y Cofio yn ddigwyddiad myfyriol a dwys, fel y disgwyliem.*

*Roedd Sul y Cofio yn ddigwyddiad dirdynnol fel arfer, ac rydym yn cofio, ac yn rhannu'n cydymdeimlad diffuant â phawb sydd wedi cael neu'n sy'n dal i*

*gael eu heffeithio gan ryfel dros y byd i gyd. Rwyf yn falch ein bod wedi parhau i anrhyeddu aberth y rheiny a wasanaethodd tramor ac adref gyda Goleuo'r Ffagl i gofio 80 mlynedd ers diwrnod VE – ymdrech ar y cyd â Phrifysgol Bangor a Chadeirlan Deiniol Sant. Derbyniwyd llawer o wahoddiadau i fynychu digwyddiadau dros gyfnod y Nadolig, yn cynnwys y Cracer Nadolig gwych a drefnwyd gan Grŵp Cymunedol Bangor. Roedd hi'n ardderchog gallu helpu Siôn Corn ar y diwrnod er gwaetha'r tywydd stormus. Roedd hi'n fraint mynychu'r digwyddiadau canylnol:*



- *Boreau coffi cydweithredol Eryri yn y Gorlan a Chae Garnedd.*
- *Clwb Rotari Bangor.*
- *RWF Comrades, Bangor.*
- *Seremoni Wobrwyo Ysgol Friars.*
- *Gêm ddathlu 150 mlwyddiant Clwb Criced Bangor yn erbyn Bangor, Gogledd Iwerddon.*
- *Serermoni wobrwyo a pherfformiad Academi'r West End yng Nghadeirlan Deiniol Sant.*
- *Yr Arddwest Frenhinol ym Mhalas Buckingham ym mis Mai, yng nghwmni'r Parchedig Ganon Tracy Jones.*
- *Sul y Maer Caernafon a Sul y Maer Biwmares.*
- *Dathliad Vishu Grŵp Kerala Bangor-Gogledd Cymru, yng nghwmni Cludwr y Brysgyll, Mr John Chamberlain, a Mrs Sheila Chamberlain.*

Ym mis Mai 2025, etholwyd Cyng Medwyn Hughes yn Faer ar gyfer 2025-2026, wedi gweithredu fel Dirprwy Faer i Cyng Gareth Parry.




*I ddechrau, hoffwn ddiolch i'm cyd-gynghorwyr am gael yr anrhydedd o wasanaethau fel Maer y Ddinas arbennig hon, yn enwedig mewn blwyddyn mor nodedig i Fangor. Eleni rydym yn dathlu 1500 mlynedd ers i Sant Deiniol sefydlu ei anheddiad crefyddol yma yn 525 OC.*

*Bu anheddiad ym Mangor fyth ers hynny, yn ei gwneud y 'Ddinas' hynaf yng Nghymru ac un o'r rhai hynaf yn y Deyrnas Unedig. Mae gennym gyfle eleni i dynnu sylw at ein dinas mewn ffordd bositif.*

*Hoffwn ddiolch i'r Cyng Gareth Parry am ei holl wiath caled, yn enwedig dros y deuddeg mis diwethaf, a fy nod yw efelychu ei arweinyddiaeth a'i wasanaeth. Gall fy nghyd-gynghorwyr gadarnhau fy mod yn angerddol am Fangor a bwriadaf weithio'n ddiflino i wella tirwedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y Ddinas hon.*

*Cyng R Medwyn Hughes*
*Maer 2025 - 2026*

**(2) Y Cyngor**

Mae gan Fangor hanes hir sy'n dyddio'n ôl i'r cyfnod ar ôl y Rhufeiniaid. Sefydlwyd Eglwys Gadeiriol Deiniol Sant yn 525 OC a bu meddiannaeth barhaol yma ers hynny. Golyga hyn fod hon yn flwyddyn arbennig o arwyddocaol, wrth i'r Ddinas ddathlu ei 1500 mlwyddiant. I nodi'r garreg filltir bwysig hon, mae Cyngor y Ddinas yn arwain y gymuned i drefnu rhaglen uchelgeisiol o ddigwyddiadau a fydd yn cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn.

Yn ddaearyddol, saif Bangor mewn dyffryn rhwng dwy grib sy'n rhedeg o'r Gogledd Ddwyrain i'r De Orllewin ac mae'r dyffryn wedi'i glustogi yn y Gogledd Ddwyrain gan y môr. Mae'r lleoliad daearyddol hwn yn rhoi ecosystem fioamrywiol i'r Ddinas. Mae'r ardal yn dioddef gan erydiad arfordirol ac mae'r gwaith bron wedi'i orffen ar amddiffynfeydd llifogydd newydd Hirael.

Ffurfiwyd Cyngor Dinas Bangor (CDB) yn ei ffurf bresennol ym 1974 ac mae'n gwasanaethu Dinas, sydd â saith Ward ac sydd â phoblogaeth o dros 18,000 (yn 2019). Ategir y nifer parhaol hwn o breswylwyr gan ryw 12,000 o fyfyrwyr, sy'n golygu bod gan Fangor un o'r cymarebau uchaf o ran myfyrwyr a phreswylwyr parhaol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r rhychwant demograffig hwn yn dod â buddion unigryw i'r Ddinas ynghyd â heriau unigryw.







Mae Cyngor y Ddinas yn cynnwys 20 o Gynghorwyr sy'n cynrychioli saith Ward, a ddosberthir fel a ganlyn:

| **Ward** | **Nifer Aelodau** | **Enwau'r Aelodau** |
|---|---|---|
| Garth | 1 Aelod | Huw Wyn Jones |
| Glyder | 3 Aelod | Gareth Parry<br>Elin Walker Jones |

| | | |
|---|---|---|
| | | Jackie Spence |
| Marchog | 4 Aelod | Dylan Fernley<br>Nigel Pickavance<br>Delyth Russell<br>Simon Hibbs |
| Menai | 3 Aelod | Meic Pattison<br>Gwynant Roberts<br>Sedd wag |
| Dewi | 3 Aelod | Gareth Roberts<br>John Wyn Williams<br>Eirian Williams Roberts |
| Hendre | 3 Aelod | Medwyn Hughes<br>John Wynn Jones<br>Lisa Toth |
| Hirael | 3 Aelod | Steve Bell<br>Salamatu Fada<br>Sedd wag |

I gael y rhestr ddiweddaraf o Gynghorwyr, ewch i wefan y Cyngor: Bangor City Council - Cyngor Dinas Bangor - Home neu anfonwch e-bost at y Cyfarwyddwr Dinesig yn townclerk@bangorcitycouncil.com.

## Cofnod Presenoldeb Cynghorwyr

**Councillor Attendance Record 2024-25**

| Cllr Name | Jun-24 | Jun-24 | Jul-24 | Sep-24 | Oct-24 | Nov-24 | Dec-24 | Jan-24 | Jan-24 | Feb-24 | Mar-24 | Apr-24 | Total (/12 | % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cllr. Gareth Parry | ✓ | ✓ | x | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 11 | 92% |
| Cllr. Medwyn Hughes | x | ✓ | x | ✓ | ✓ | ✓ | x | ✓ | ✓ | ✓ | x | ✓ | 10 | 83% |
| Cllr. Steve Bell | ✓ | ✓ | x | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | x | ✓ | 11 | 92% |
| Cllr. Salamatu Fada | x | x | ✓ | ✓ | x | x | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | x | ✓ | 7 | 58% |
| Cllr. Dylan Fernley | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 12 | 100% |
| Cllr Simon Hibbs | x | x | x | x | x | x | x | x | ✓ | ✓ | ✓ | x | 3 | 25% |
| Cllr. Huw Wyn Jones | x | ✓ | x | ✓ | ✓ | x | x | ✓ | x | x | x | ✓ | 5 | 42% |
| Cllr. John Wyn Jones | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 12 | 100% |
| Cllr. Elin Walker Jones | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | x | ✓ | ✓ | ✓ | x | ✓ | 10 | 83% |
| Cllr. Meic Pattison | x | ✓ | x | x | x | x | x | x | x | x | x | x | 1 | 8% |
| Cllr. Nigel Pickavance | x | ✓ | x | ✓ | x | ✓ | ✓ | x | x | ✓ | ✓ | x | 6 | 50% |
| Cllr. Gareth Roberts | ✓ | x | x | x | ✓ | ✓ | x | x | x | ✓ | ✓ | x | 5 | 42% |
| Cllr. Gwynant Roberts | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | x | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 11 | 92% |
| Cllr. Eirian Williams Roberts | ✓ | ✓ | x | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | x | 10 | 83% |
| Cllr. Mark Roberts | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | x | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 11 | 92% |
| Cllr. Delyth Russell | x | x | ✓ | ✓ | x | x | ✓ | ✓ | x | ✓ | ✓ | ✓ | 7 | 58% |
| Cllr. Jackie Spence | | | | | | | | | | ✓ | ✓ | ✓ | 3 | 100% |
| Cllr. Lisa Toth | x | x | ✓ | x | ✓ | x | ✓ | x | ✓ | ✓ | ✓ | x | 6 | 50% |
| Cllr. John Wyn Williams | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 12 | 100% |
| Cllr. Beverly Jones | ✓ | ✓ | x | x | x | x | x | x | x | | | | 2 | 22% |
| **Officers** | | | | | | | | | | | | | | |
| Martin Hanks | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 12 | 100% |
| Admin Officer | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 12 | 100% |

Yn unol â chynghorau traddodiadol, a chynghorau lleol eraill, mae Cyngor Dinas Bangor yn ethol Maer a Dirprwy Faer bob blwyddyn o blith ei Aelodau, i weithredu fel cadeirydd ac arweinydd i'r Cyngor. Y Maer presennol yw'r Cynghorydd Medwyn Hughes o Ward Glyder a fydd yn gwasanaethu tan y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai 2026. Yr Is-Gadeirydd presennol yw'r Cynghorydd Delyth Russell o Ward Marchog. Mae arfer yn mynnu y bydd y Dirprwy Faer yn dod yn Faer y flwyddyn ganlynol, er nad yw hyn wedi'i osod mewn statud neu reoliad a gellir, ar adegau, wyro oddi wrth yr arfer.

Mae gan y Cyngor sawl pwyllgor ac is-bwyllgor, yn cynnwys Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau, Pwyllgor Cyllid, Pwyllgor Datgarboneiddio, Pwyllgor Gwastraff ac Ailgylchu, Pwyllgor Staffio ac is-bwyllgor Nantporth.

Mae Cyngor y Ddinas fel arfer yn cyfarfod oddeutu unwaith y mis, gyda chyfarfodydd pwyllgor bob yn ail fis, ac eithrio ym mis Awst. Cynhelir y cyfarfodydd am 6.30 pm ar nos Lun yn Neuadd y Penrhyn, er bod modd eu mynychu yn electronig hefyd drwy 'Microsoft Teams'. Cyhoeddir cyfarfodydd y Cyngor ar wefan y Cyngor. Am restr o'r cyfarfodydd a drefnwyd, gweler atodiad A.

Mae'r Cyngor yn berchen ar nifer o asedau pwysig sydd angen eu rheoli, gan gynnwys

- Pier y Garth

- Neuadd y Penrhyn
- Stadiwm Pêl-droed Nantporth
- Caeau Ashley Jones
- Coed Menai
- Bwyty'r Pier
- Caeau Dargie
- Hwb Cymunedol Hafan
- Gweithdy’r Pier
- Tŷ’r Pierfeistr
- Maes Parcio Ffordd Garth
- Cloc y Dref
- Amrywiol gysgodfannau bysiau, meinciau a dodrefn stryd.
- Mae Toiledau Cyhoeddus Gerddi’r Garth a Ffordd y Garth, ers mis Gorffennaf 2025, ar brydles gan Gyngor Gwynedd.

Er mwyn cynorthwyo'r Maer a'r Cyngor i redeg yn effeithiol a rheoli’r asedau, mae'r Cyngor yn cyflogi chwech aelod o staff llawn amser. Y brif swydd yw’r Cyfarwyddwr Dinesig, rôl sy'n cyflawni dyletswyddau Swyddog Priodol, Clerc y Dref a Swyddog Ariannol Cyfrifol. Y Cyfarwyddwr Dinesig presennol yw Dr Martin Hanks a gychwynnodd yn y swydd yn llawn amser ym mis Medi 2022. Mae ef yn Glec y Dref profiadol wedi’i gymhwyso gan CilCA, yn Brif Aelod o’r SLCC (Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol) ac yn eistedd ar Bwyllgor Gwaith yr ALCC.

**(3)Crynodeb o Weithgareddau'r Cyngor - 2024/25**

Mae'r crynodeb hwn o weithgareddau wedi'i fodelu ar y saith nod llesiant a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, sef:

| **Nod Llesiant** | **Disgrifiad o'r Nod** |
|---|---|
| Cymru lewyrchus | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy’n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy’n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgiedig mewn economi sy’n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatau i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. |
| Cymru gydnerth | Cenedl sy’n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy’n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â’r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). |

| | |
|---|---|
| Cymru iachach | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |
| Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). |
| Cymunedau Cydlynus | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. |

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn diffinio datblygu cynaliadwy, fel proses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau, yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy, sy'n anelu at gyrraedd y nodau llesiant. Yn hyn o beth mae'r Cyngor yn cydnabod ei rôl tuag at hyrwyddo datblygu cynaliadwy a'r ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf wrth weithredu dros, a gyda, cymunedau lleol.

Mae'r nodau llesiant yn llwyr integreiddio i'w gilydd ac yn egluro beth a olygir gan lesiant Cymru. Mae'r Cyngor yn croesawu'r nodau llesiant hyn a bydd yn gosod y nodau hyn wrth wraidd ei drefniadau cynllunio a gwneud penderfyniadau er mwyn gwella ansawdd bywyd cyffredinol (llesiant) yn ei ardal weinyddol.

Wrth gymhwyso'r nodau llesiant hyn i'r swyddogaethau, y gweithgareddau a'r gwasanaethau a ddarperir gan Gyngor y Ddinas, mae'r ddeddf yn mynnu fod y Cyngor yn meddwl yn y tymor hirach, yn gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyrff cyhoeddus eraill, i geisio atal problemau rhag codi, ac i gymryd agwedd fwy cydlynus. Mae llawer o'r nodau a'r gweithgareddau hyn yn cyd-fynd ac yn gorgyffwrdd â'i gilydd.

Mae gweddill yr Adroddiad hwn yn cyfateb i'r 7 nod llesiant yn y Ddeddf.

## 1. Cymru lewyrchus

**"Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgiedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas."**

Mae gan Gyngor y Ddinas gynrychiolwyr ar nifer o gyrff perthnasol yn y Ddinas a thu hwnt, sy'n ceisio cyflwyno cynlluniau a fydd yn tyfu economi'r Ddinas. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyrff Llywodraethu Ysgolion;
- Partneriaeth Strategol Bangor
- Bwrdd Cymunedol Prifysgol Bangor
- Cyngor ar Bopeth
- Partneriaeth Maesgeirchen
- Nantporth CIC ;
- Ffrindiau Pier y Garth;
- Un Llais Cymru;
- Cymdeithas Ddinesig Bangor;
- Canolfan Gymunedol y Garth.

Mae Bangor wedi ei gefeillio â Soest (yr Almaen) ac yn gweithio i gynyddu cysylltiadau diwylliannol gydag Ewrop. Yn 2024-2025 gwelwyd 1400 mlwyddiant sefydlu Soest a bu tri chynrychiolydd o Gyngor Bangor, ar eu costau eu hunain, yn y dathliadau hyn yr Almaen, i atgyfnerthu'r cysylltiadau diwylliannol hyn.

Uchafbwynt yr ymweliad oedd gwasanaeth coffa yn y Gadeirlan ac ail-lofnodi'r datganiad o gyfeillgarwch rhwng ein cymunedau. Mae Cyngor y Ddinas wedi dechrau trafodaethau i sefydlu Cwmni Buddiannau Cymunedol, (CIC) i reoli Pier y Garth a'r cyffiniau. Bydd hyn yn helpu i wneud y mwyaf o fuddiannau economaidd un o brif atyniadau'r Ddinas.

Ym mis Rhagfyr 2023, llwyddodd Cyngor y Ddinas i gael grant gan Lywodraeth Cymru i wella golwg canol y Stryd Fawr. Defnyddiwyd y £100,000 i atgyweirio adeiladau, rhoi lluniau finyl o atyniadau lleol dros ffenestri siopau gwag, glanhau'r ardal yn drwyadl, prynu dodrefn stryd newydd, basgedi crog a blodau. Ystyrir yr uwchraddio yma fel rhan gyntaf Trawsnewid Bangor ac mae'r Cyngor yn gweithio ar brosiectau ychwanegol a chyllid i barhau â'r momentwm a ddechreuwyd.

## 2. Cymru Gydnerth

**"Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd)."**

Mae Cyngor y Ddinas wedi buddsoddi mewn defnydd o ffynonellau ynni mwy effeithlon a charedig i'r amgylchedd, sydd wedi arwain at leihau ei ôl troed carbon a gostyngiad sylweddol mewn costau ynni.

Mae newid y cyflenwyr ynni hefyd wedi gwella effeithlonrwydd a chostau.

Mae gosod drysau mewnol wedi lleihau'n sylweddol y costau ynni blynyddol yn swyddfeydd y Cyngor.

Gosododd y Cyngor bwynt gwefru cerbydau trydan yn ei depo ac mae wedi archebu ei fan drydan gyntaf.

Mae'r defnydd o oleuadau ynni isel mewn arddangosfeydd Nadolig wedi cael yr un effaith, a hefyd wedi gostwng costau blynyddol y goleuadau Nadolig. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi bod yn cysylltu â chwmni Goleuadau Nadolig sy'n defnyddio deunyddiau 100% adnewyddadwy.

Mae'r defnydd o dechnoleg newydd yn helpu i symud y busnes tuag at ddyfodol di-bapur. Gyda hyn mewn golwg, yr amcan yn ystod 2024-205 yw rhoi dyfais electronig i bob Cynghorydd a fydd yn golygu nad oes angen defnyddio papur.

Gwneir taliadau'r Cyngor yn electronig, sy'n lleihau'r angen am bapur.

I wneud iawn am ôl troed carbon y Cyngor, mae mwy o ardaloedd o dir y Cyngor yn cael eu hau fel perllannau blodau gwyllt. Mae Cyngor y Ddinas hefyd yn cefnogi prosiect Cyngor Gwynedd i blannu planhigion gwyllt a pheillwyr ar y ffordd sy'n dod i mewn i'r ddinas.

Mae'r ddinas yn sefydlu cysylltiadau gyda grwpiau a gwirfoddolwyr lleol gyda golwg ar gynyddu bioamrywiaeth a gwella gwyrddni Bangor. Yn ystod blwyddyn ddinesig 2024 – 2025 gobeithir y bydd Cyngor y Ddinas yn gweithredu fel hwylusydd i sefydlu grŵp Bangor gwyrdd gwirfoddol newydd.

3. Cymru Iachach

**"Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol."**

Nod Cyngor y Ddinas yw cefnogi sefydliadau sy'n hybu byw'n iach. I gyflawni hyn mae'r Cyngor yn rhoi cymorth ariannol i unrhyw sefydliad sy'n gallu dangos bwriad at y nod hwn. Mae grwpiau cymunedol sy'n gwella mannau gwyrdd y Ddinas, clybiau chwaraeon a chanolfannau lles wedi derbyn cefnogaeth gan y Cyngor.

Yn ogystal, mae Cyngor y Ddinas yn buddsoddi'n helaeth mewn parciau a llefydd chwarae yn y Ddinas, er bod y rhain yn eiddo i Gyngor Gwynedd. Dros y deuddeg mis nesaf mae hanner can mil o bunnoedd wedi'i glustnodi i wella parciau a llefydd chwarae'r Ddinas.

Mae buddsoddi yn cael ei wneud ar dir Cyngor y Ddinas hefyd i'w cynnal ar gyfer

defnydd y cyhoedd.

Cynhaliwyd cyfarfod o gynrychiolwyr o fudiadau trydydd sector y Ddinas ym mis Ionawr 2024. Roedd y digwyddiad yn llwyddiannus dros ben ac yn cysylltu unigolion a chyrff sy’n gweithio ar broblemau tebyg ar draws Bangor. Y brif neges a ddaeth o’r gynhadledd hon oedd bod angen hwb cymunedol yng nghanol Bangor.



Yn dilyn cynhadledd y trydydd sector, mae gan Gyngor y Ddinas rôl flaenllaw mewn ceisio sefydlu hwb cymunedol yng nghanol y ddinas, a fyddai’n cael ei ddefnyddio gan lu o fudiadau’r trydydd sector i helpu gyda lles y trigolion.

Mae Pier y Garth yn lle delfrydol i fwynhau’r awyr agored. Er mwyn adeiladu ar ei boblogrwydd, bwriedir gosod canolfan llogi beiciau wrth fynedfa’r Pier, a fydd yn cynnwys beiciau trydan (pwyntiau gwefru wedi’u gosod yn barod).

Mae Cyngor y Ddinas wedi dechrau trafodaethau gyda Chyngor Gwynedd i ystyried trosglwyddo ased cyfleusterau chwaraeon Ffordd y Traeth. Byddai hyn yn galluogi’r Cyngor i wella’r cyfleusterau chwaraeon yno. Mae’r trafodaethau hyn wedi’u gohirio nes bod y gwaith ar yr amddiffynfeydd môr a Dŵr Cymru wedi’u cwblhau, ond wedyn mae Cyngor y Ddinas yn awyddus i symud ymlaen â’r trosglwyddiad hwn.

Mae cyfleusterau Ffordd y Traeth hefyd yn cynnwys dau faes parcio wedi’u lleoli o fewn cerdded hawdd i Bier y Garth. Byddai hyn yn galluogi ymwelwyr i barcio yn Ffordd y Traeth ac yna, wedi cerdded ychydig, llogi beic neu feic trydan er mwyn mwynhau’r Ddinas a’r ardal o gwmpas.

4. Cymru fwy cyfartal

**“Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).**

Mae Cyngor y Ddinas yn parhau i roi cymorth ariannol i nifer o grwpiau amrywiol ledled y Ddinas ac mae’n cael ei gynrychioli hefyd gan Aelodau ar lawer o grwpiau a

mudiadau cymunedol.

Mae llawer o'r grwpiau hun yn gweithio tuag at Gymru fwy cyfartal, o wella addysg i roi cyfleoedd i'r trigolion ddatblygu sgiliau newydd. Er enghraifft, cymeradwyodd Cyngor y Ddinas gefnogaeth ariannol yn ddiweddar i ddarparu M-Sparc ar y Lôn ar y Stryd Fawr, a oedd yn rhoi cymorth a chyngor i fusnesau ac unigolion.

I hybu a chynorthwyo myfyrwyr gwyddoniaeth ar draws Gogledd Cymru, trefnodd Cyngor y Ddinas, mewn cydweithrediad â Phrifysgolion Lancaster a Bangor, Gystadleuaeth a Chynhadledd i Ymchwilwyr Ifanc. Roedd y gystadleuaeth hon ar agor i bob myfyriwr Uwch Gyfrannol a Safon Uwch ac roedd yn annog a helpu'r ymgeiswyr i wneud a chyfathrebu eu hymchwil unigol eu hunain. Noddwyd y digwyddiad gan Network Rail, Banc Lloyd's ac EDF. Cafodd yr ymgeiswyr sgiliau trosglwyddadwy na fyddent fel arfer yn eu cael tan ar ôl y Brifysgol.

Yn ddiweddar, derbyniodd y Cyngor fyfyriwr o'r brifysgol ar brofiad gwaith a oedd yn cael trafferth dod o hyd i brofiad perthnasol fel arall, ac mae hefyd yn gweithio'n agos gyda chynghorau'r ysgolion uwchradd i annog pobl ifanc o bob cefndir i gymryd rhan mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r Cyngor yn parhau i roi cymorth ariannol i Cyngor ar Bopeth ac mae Aelod o'r Cyngor yn eistedd ar y Bwrdd er mwyn sicrhau cyfathrebu cadarn.

Datblygwyd nifer o gynlluniau i helpu'r rhai sy'n cael trafferthion ariannol, o gefnogi banciau bwyd i gynnig llogi Neuadd Penrhyn am bris gostyngol ar gyfer digwyddiadau a phriodasau. Mae gan y Neuadd gyfleusterau cegin, mynediad i'r anabl gan gynnwys dolen glyw.



Mae Cynghorwyr y Ddinas yn cynnig eu gwasanaeth i eistedd ar Fyrddau Llywodraethu pob un o ysgolion a sefydliadau addysgol y Ddinas.

Mae cynrychiolwyr o'r Cyngor yn mynychu cyfarfodydd Llys Prifysgol Bangor ac yn eistedd ar Fwrdd Cymunedol y Brifysgol, lle mae gan Cyngor y Ddinas eitem sefydlog ar yr agenda i hysbysu'r Brifysgol am yr hyn sy'n digwydd ledled y Ddinas.



Mae gan y Cyngor wefan newydd i hwyluso cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol.

Mae'r Cyngor yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gwbl gyfartal ac yn sicrhau fod y Gymraeg yn cael lle blaenllaw ym mhob un o'i weithgareddau.

Er mwyn cynyddu mwynhad o'r Ddinas a gwella llesiant mae Cyngor y Ddinas yn trefnu ac yn cefnogi rhaglen o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn. Mae mynediad am ddim i nifer o'r rhain ac felly gallant gael eu mwynhau gan bobl o bob cefndir ariannol a diwylliannol.

5. Cymru o gymunedau cydlynus
**"Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da"**

Mae Cyngor y Ddinas yn cynllunio buddsoddi'n drwm i wneud y Stryd Fawr yn fwy deniadol. Grant Llywodraeth Cymru, y cyfeiriwyd ato uchod, oedd cam cyntaf y cynllun hwn ond mae gobeithion i brynu ac adnewyddu rhai o'r adeiladau sy'n edrych yn wael yn y ddinas, yn ogystal ag ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch y ffordd orau i baratoi'r Ddinas ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gydag asiantaethau eraill, yn cynnwys yr Heddlu, Bangor yn Gyntaf, (Ardal Gwella Busnes gynt) a Chyngor Gwynedd i wella diogelwch dinasyddion ac ymwelwyr. Eto dros y deuddeng mis diwethaf mae'r Cyngor wedi talu i gael camerâu CCTV ychwanegol yn eu lle ac mae cynlluniau i ymestyn y rhain ymhellach yn 2024-25.

Mae'r Cyngor yn parhau i gymryd rhan mewn materion sy'n effeithio ar bawb yn y Ddinas, yn arbennig penderfyniadau cynllunio, deddfwriaeth Llywodraeth Cymru a chysylltu â'r awdurdod unedol. Mae Cyngor y Ddinas yn chwarae rhan bwysig o ran ymgynghori a chydweithio rhwng aml-asiantaethau.

Mae Cyngor y Ddinas yn parhau i gyflawni rôl gymunedol bwysig:

a) trefnu Sul y Cofio;
b) gosod goleuadau Nadolig
c) trefnu gŵyl haf
d) trefnu Noson Tân Gwyllt
e) trefnu'r digwyddiad Cracer Nadolig
f) helpu i gynnal digwyddiadau ar y Pier, gan gynnwys gwasanaeth carolau Nadolig, gŵyl Fai ac ati.
g) Paratoi ar gyfer dathlu Bangor 1500 yn 2025.

Mae Cyngor y Ddinas yn codi basgedi crog ar hyd y Stryd Fawr i wella golwg esthetig y Ddinas.

6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.
**"Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden."**

Mae Bangor yn ymfalchïo yn y ffaith mai hi yw'r ddinas fwyaf Cymreig yn y Byd. Mewn cyferbyniad, Bangor hefyd yw'r ddinas fwyaf amrywiol yng ngogledd Cymru.

Mae'r ffeithiau gwrthgyferbyniol hyn yn cyd-fynd yn hynod o dda ac mae Cyngor y Ddinas yn gwneud pob ymdrech i warchod yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru tra'n croesawu pob diwylliant arall.

Er mwyn gwarchod a hyrwyddo'r Gymraeg cynhelir pob cyfarfod yn ddwyieithog ac mae holl waith papur y Cyngor, yn cynnwys cofnodion, adroddiadau a pholisïau, ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Bydd unrhyw un sy'n cysylltu â Chyngor y Dinas drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, boed ar lafar neu'n ysgrifenedig, yn derbyn ateb yn yr iaith honno.

Mae'r Cyngor hefyd yn hyrwyddo digwyddiadau diwylliannol blynyddol yn cynnwys dathliadau Dydd Gŵyl Dewi, pan geir gorymdaith drwy'r ddinas a threfnir digwyddiadau eraill hefyd i roi hwb i'r iaith a'r diwylliant.

Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Fenter Iaith i asesu a gwella'r ddarpariaeth Gymraeg yn gyson.

Mae yna hefyd lu o sefydliadau rhyngwladol wedi'u lleoli yn y Ddinas ac mae'r Cyngor yn croesawu ac yn cefnogi pob un ohonynt. Er enghraifft, mae'r Maer yn cyflwyno myfyrwyr Japaneaidd newydd i Sefydliad y Drindod bob blwyddyn ac yn mynychu digwyddiad Blwyddyn Newydd Cymdeithas Confucius. Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Chymdeithas Jamaica a'r Gymdeithas Affricanaidd a Charibïaidd. Yn ystod 2023 cofiwyd am 75 mlynedd ers Windrush a'r Diwrnod Jamaica blynyddol a'r ddau ddigwyddiad yn cael eu cynnal yma yn Neuadd y Penrhyn.

7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

**"Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang."**

Ym mis Awst, cafodd diwrnod glanhau y Maer ei gefnogi gan bobl a mudiadau o bob cwr o'r Ddinas.

Mae'r wybodaeth a roddwyd uchod yn dangos sut mae Cyngor y Ddinas yn cyfrannu at wella llesiant pobl yn lleol. Gall y Cyngor fod yn haeddiannol falch o'r rôl arweiniol mae wedi'i chwarae, ac yn cynnwys i'w chwarae, mewn cynifer o agweddau ar fywyd economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Bangor.

Trwy gadw eu ffocws ar anghenion pobl leol, i'r dyfodol a pharhau i weithio mewn partneriaeth agos â'r cymunedau lleol, a rhanddeiliaid eraill sydd â chylch gorchwyl ehangach, gan gynnwys Cyngor Gwynedd, gall Cyngor Dinas Bangor fod yn hyderus

ei fod yn cyfrannu'n gadarnhaol at lesiant cenedlaethol ac yn wir at lesiant byd-eang.

**(4) Crynodeb Ariannol**

| **Rhagolygon Incwm a Gwariant am y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2023 - 2024** | |
|---|---|
| | |
| Dygwyd ymlaen o 2023 – 2024 | **£152,191** |
| | |
| **Incwm** | |
| Praesept | £563,580 |
| Arall, yn cynnwys Ciosg a mynedfa'r Pier, Nantporth, Maes parcio | £247,095 |
| **Cyfanswm Incwm a Ragwelir** | **£810,675** |
| | |
| **Cyfanswm a Ddygwyd Ymlaen a'r Incwm a Ragwelir** | **£962,866** |
| | |
| **Gwariant** | |
| Cronfeydd Statudol | £130,000 |
| Asedau ac Adeiladau (ac eithrio'r Pier) | £248,013 |
| Cynnal a Chadw'r Pier | £150,130 |
| Gweinyddiaeth ac Yswiriant | £77,702 |
| Grantiau, Digwyddiadau ac Adloniant | £106,165 |
| Costau Gweithredol yn cynnwys staff | £243,143 |
| Costau Dinesig | £7,713 |
| **Cyfanswm Cyllid a Ddyrannwyd** | **£962,752** |

**(5) Adroddiad Cyllideb 2025-2026**

## Cyngor Dinas Bangor – 16 Ionawr 2025

## CYLLIDEB BLWYDDYN DDINESIG 2025 - 2026

## Adroddiad y Cyfarwyddwr Dinesig

**Trosolwg**.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2024 - 2025 parhaodd Cyngor Dinas Bangor i ddatblygu. Gyda phenodi ychwanegiad i'r tîm gweinyddol ychydig cyn dechrau'r flwyddyn, roedd y tîm mewn lle da i barhau i addasu a thyfu. Dechreuodd yr athroniaeth fwy rhagweithiol, a fabwysiadwyd rhyw ddeuddeg mis cyn dechrau 2024-2025, ddwyn ffrwyth yn ystod y flwyddyn. Yn dilyn cwblhau prosiect Trawsnewid Trefi y Stryd Fawr yn llwyddiannus, cafwyd ymgysylltiad cyhoeddus pwysig arall, megis ymateb i gasgliad cynhadledd y trydydd sector fod angen Hwb Cymunedol yng nghanol y dref, ac agorodd hwn ym mis Awst. Sefydlwyd prosiect bwyd poeth bob dydd Sadwrn a datryswyd yr anghydfod hir rhwng yr Eglwys yng Nghymru a Chyngor Gwynedd dros gynnal a chadw'r Gerddi Beiblaidd. I gydnabod ymdrechion rhagweithiol Cyngor y Ddinas, yn 2024 cyflwywynyd y wobr genedlaethol gyntaf erioed i Gyngor y Ddinas. Cyflwynwyd y wobr gan Un Llais Cymru yn ei seremoni wobrwyo genedlaethol am ymgyslltiad â'r trydydd sector.

Mae dylanwadau allanol yn parhau i gael cryn effaith ar y Cyngor a'r ddinas yn ehangach. Daeth chwyddiant i lawr o'i lefel uchel yn 2023 ond mae'n parhau i fod yn uwch nag a gynlluniwyd ar gyfer 2024-2025. Ym mis Mai, newidiodd llywodraeth San Steffan ac er na chafodd hyn fawr o effaith ar bolisi ariannol, gwelodd chwe mis cyntaf y llywodraeth hon ganlyniadau economaidd cymysg.

Mae'r cyfyngiadau ariannol a brofwyd gan Gyngor Gwynedd, fel llawer o awdurdodau unedol eraill yng Nghymru, yn parhau i greu problemau. Eto bydd 2025-2026 yn gweld diffyg sylweddol yn y Cyngor Sir ac felly bydd pwysau parhaus a chynyddol ar wasanaethau. O ystyried bod yn rhaid i wasanaethau statudol, yn ôl y diffiniad, gael eu hariannu, bydd Gwynedd yn gorfod torri rhai o'i wasanaethau anstatudol. Bydd hyn yn ei dro, yn cynyddu'r pwysau ar Gyngor y Ddinas i helpu i ariannu neu fabwysiadu'r gwasanaethau hyn. Mae cynnal a chadw parciau, parciau chwarae, llwybrau troed a rheoli toiledau cyhoeddus i gyd yn enghreifftiau o wasanaethau yr ystyrir eu bod dan fygythiad.

Ar nodyn mwy cadarnhaol, dechreuodd Stryd Fawr Bangor weld egin adferiad yn ystod y flwyddyn. Gyda'r grant Trawsnewid Trefi, ynghyd â buddsoddiad Cyngor y Ddinas, gwariwyd oddeueu £150,000 yn gwella golwg y Stryd Fawr. Gwnaed buddsoddiad ychwanegol drwy lasu a phlannu blodau.

Yn fasnachol, mae Grŵp Llandrillo Menai bron yn barod i agor Canolfan Addysg Oedolion ar y Stryd Fawr, a fydd hefyd yn gartref i Ganolfan Cyngor Cyfreithiol Bangor, mae gwaith wedi

dechrau ar hen adeilad Peacocks i'w drosi yn swyddfeydd a llety, mae chwe busnes newydd wedi agor eu drysau mewn adeiladau a arferai fod yn wag ar y Stryd Fawr, prynwyd Canolfan Deiniol gan berchennog newydd, sydd â phrofiad o fod yn berchen ar ganolfannau siopa eraill mewn rhannau eraill o Ogledd Orllewin Prydain, ac mae canolfan Menai yn parhau i ddenu busnesau, rhai oddi ar y Stryd Fawr ond rhai gwerthfannau newydd. Ar ben hyn, y newyddion diweddaraf yw bod yr hwb meddygol arfaethedig yn mynd rhagddo, yn araf, ac yn y pen draw bydd yn arwain at 400 o staff meddygol yn gweithio yng Nghanolfan Menai.

Mae 2025 yn flwyddyn arbennig o arwyddocaol i Fangor pan fydd y Ddinas yn dathlu 1500 mlynedd ers i Deiniol Sant sefydlu'r anheddiad crefyddol cyntaf yma sy'n golygu fod Bangor yn un o'r 'dinasoedd' cynharaf yn y Deyrnas Unedig. I nodi'r garreg filltir hon mae Cyngor y Ddinas yn arwain amrywiaeth enag o randdeiliaid i drefnu rhaglen uchelgeisiol o ddigwyddiadau a fydd, gobeithio, yn dod â'r ddinas ynghyd ac yn dangos ei rhinweddau i'r ardal ehangach ac i'r wlad. Cafodd llawer o'r paratoi a'r cynllunio ar gyfer y rhaglen hon eu gwneud ym mlwyddyn ariannol 2024-2025.

Yn gyffredinol, mae cyllid y Cyngor yn parhau'n iach, er gwaethaf cynnydd amlwg mewn cefnogaeth i grwpiau a phrosiectau cymunedol. Rhagwelir y bydd £220,000 yn cael ei ddwyn ymlaen o flwyddyn ariannol 2024-2025 i'r flwyddyn ddinesig newydd. O hynny, mae £120,000 wedi'i ddosbarthu fel cronfeydd statudol wrth gefn a dylid ei gadw ar gyfer argyfyngau. Mae'r £100,000 sy'n weddill wedi'i ymgorffori yng nghyllideb ariannol 2025-2026. Golyga hyn na fydd unrhyw symiau a ddygwyd ymlaen o 2024-2025 yn unrhyw linell gyllideb benodol, gan fod yr arian gweddilliol i gyd wedi'i gynnwys yn y ffigwr cyffredinol.

**ARGYMHELLIR: cadw'r arian wrth gefn cyffredinol ar £130,000 (h.y. yn unol ag argymhellion Llywodraeth Cymru).**

**1) Adolygu Prisiau, Taliadau a Rhenti'r Cyngor**

(a) **Neuadd y Penrhyn:** Mae'r Neuadd yn parhau i gael ei defnyddio'n rheolaidd gan grwpiau cymunedol ac ar gyfer priodasau. Am lawer o'r flwyddyn gyfredol, mae sefydliadau ariannol, sef Banc Barclays a Halifax wedi bod yn defnyddio'r Neuadd ar ddyddiau'r wythnos, tra bod y Prosiect Bwyd Poeth yn defnyddio'r Neuadd ar y rhan fwyaf o Sadyrnau. Rhagwelir y bydd newidiadau yn y defnydd rheolaidd dros y flwyddyn nesaf, wrth i'r cytundebau gyda'r sefydliadau ariannol ddod i ben. Ni fu codiadau ffioedd yn y Neuadd ers sawl blwyddyn, er gwaethaf cynnydd sylweddol ym mhrisiau gwresogi a thrydan. Fodd bynnag, mae gosod system wresogi newydd wedi gwella effeithlonrwydd, er hyn argymhellir rhai codiadau pris er mwyn cadw i fyny â chostau.

| **Nifer y sesiynau** | **1** | **newid** | **2** | **newid** | **3** (diwrnod llawn) | **Newid** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Priodasau | £60 | +£10 | | | | |
| Rihyrsal | £e5 | +£10 | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Grwpiau Lleol/Elusennau | £25 | - | £30 | | £40 | -£2 |
| Busnes/Eraill | £70 | +£10 | £90 | | £120 | +£15 |
| *Gyda chyfleusterau Cegin | £10 | - | £15 | | £20 | - |
| | Archebion bloc trwy drafodaeth | | | | | |

**ARGYMHELLIR: cadw’r cynnydd mewn ffioedd ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-2026 ond eu hadolygu bob chwarter.**

**(b) Pier Bangor:**

| | **2024/25** | **2025/26** |
|---|---|---|
| Rhentu Ciosg | £635 y flwyddyn | £650 y flwyddyn |
| Rhentu Ciosg Mynediad | £370 y flwyddyn | £385 y flwyddyn |
| Caffi'r Pafiliwn | £8,000 y flwyddyn | £8,000 y flwyddyn |
| Maes Parcio | £1.50 | £2.00 |
| Parcio Dros Nos | £20.00 | £20.00 |
| Mynediad i’r Pier | 50c.<br>£10 Tocyn Blynyddol. [4]<br>Tocyn Oes £25 | £1.00.<br>£10 Tocyn Blynyddol pobl leol<br>£20 Tocyn Blynyddol heb fod yn lleol<br>Tocyn Oes £40 |

Yn ystod y deuddeg mis nesaf bydd costau cynnal a chadw’r Pier yn codi gryn dipyn yn uwch na chwyddiant arferol gyda Swyddog Prosiectau’r Cyngor ar fin ymddeol. Am y rheswm hwn, argymhellir fod ffioedd rhentu’r ciosgau, sydd heb newid yn y pum mlynedd diwethaf, yn codi o leiaf yn unol â chwyddiant. Oherwydd anhawster cadw trefn ar y maes parcio, nid argymhellir codi’r prisiau hynny am y deuddeg mis nesaf. Argymhellir yr un fath fod ffioedd mynediad i’r pier yn codi fel yn ôl yr argymhellion uchod. Mae Cyngor y Ddinas yn gweithio’n agos hefyd gyda Ffrindiau Pier y Garth i wella monitro nifer yr ymwelwyr i’r Pier, i helpu o safbwynt diogelwch ac ariannol.

**ARGYMHELLIR mabwysiadu’r cynigion uchod o ran Rhenti, mynediad i’r pier, a ffioedd maes parcio’r Pier ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod.**

**2) Gwaith Cyfalaf ar y Pier**

Yn ogystal â chynnal a chadw o ddydd i ddydd, eleni gwelwyd cwblhau cam diweddaraf y gwaith adfer, ar gyfanswm o tua £90,000, yn cynnwys rhoi nifer o gyplau gwynt newydd, fel y nodwyd yn adroddiad y llynedd. Yn hytrach na chwythu tywod a pheintio'r metel newydd, fel sy'n arferol, penderfynwyd symud yn gyflym i newid y cyplau gwynt oedd ar ôl a cham olaf y gwaith metel strwythurol. Bydd y gwaith yn parhau drwy haf 2025.

Erbyn Hydref 2025 bydd holl waith adfer elfennau strwythurol y Pier wedi'i gwblhau. Bydd dal angen gwaith i gwblhau'r chwythu tywod a pheintio'r ddwy ran olaf ond mae hyn yn llai beichus a gellir ei wneud wedi ymadawiad Rheolwr Prosiect y Cyngor, a fydd yn digwydd ym Medi/Hydref 2025. Drwy wneud hyn, bydd y gwaith i gyd yn cael ei orffen yn y ffordd fwyaf effeithiol a darbodus. Bydd hyn yn cwblhau prif waith adfer y Pier ac ar wahân i'r cynnal a chadw blynyddol rheolaidd, ni fydd angen gwaith adfer pellach am ryw bymtheg mlynedd.

Bydd pwysau ariannol cynyddol ar y Cyngor i ariannu'r gwaith parhaus hwn, a oedd wedi'i gynllunio ar gyfer 2025, yr un pryd ag ariannu digwyddiadau Bangor 1500. Fodd bynnag, o ystyried y newidiadau staff a fwriedir yn 2025, y cynllun blaenoriaeth ar y cyd hwn yw'r un mwyaf synhwyrol.

Pe digwydd bod costau adnewyddu'r Pier yn codi yn fwy na'r disgwyl, dylai'r Cyngor ystyried cael benthyciad PWLB i gwblhau'r gwaith strwythurol cyn i'r Swyddog Prosiect presennol adael. Mae hyn oherwydd, er cryn ymdrechion, byddai Swyddog newydd, naill ai cyflogai uniongyrchol neu ymgynghorydd hunan-gyflogedig yn bwysau ariannol yn y farchnad sydd ohoni. Mae'n hanfodol fod y Cyngor yn gwneud y mwyaf o'r Swyddog presennol tan hydref 2025.

**3) Rheoli'r Pier**

Mae Pier y Garth yn mynd yn fwy a mwy poblogaidd. Mae hyn i raddau helaeth oherwydd ymdrechion Ffrindiau Pier y  Garth. Bu'r Ffrindiau, gyda chefnogaeth staff Cyngor y Ddinas, yn trefnu cyfres o ddigwyddiadau ac mae'r rhain, yn ogystal â phresenoldeb wrth y giât a chasglu ffioedd mynediad, wedi cynyddu nifer yr ymwelwyr a'r sylw i'r Pier, gan arwain at fwy o incwm. Mae'r Ffrindiau hefyd wedi dechrau cyfrannu at waith trwsio ac adfer y mannau gwylio ar y Pier, felly'n caniatau i Gyngor y Ddinas leihau ei gostau cynnal a chadw ac ailgyfeirio cyllid at rannau eraill o'r Ddinas.

Parhau wnaeth y trafodaethau yngylch sefydlu Cwmni Buddiant Cymnedol (CIC) o dan arweiniad y Ffrindiau i reoli'r Pier a'r cyffiniau yn y dyfodol. Y cam nesaf yw paratoi cynllun ariannol i weld a fyddai CIC o'r fath yn hyfyw. Fodd bynnag, fel y Cyngor, mae'n hanfodol fod strwythur gweithredol yn cael ei sefydlu i sicrhau system newydd o wiriadau diogelwch a goruchwylio trwsio a chynnal a chadw yn dilyn ymadawiad y Swyddog Prosiect presennol. Hyd nes y gwyddom yn derfynol beth yw costau system o'r fath, mae'n amhosibl archwilio hyfywedd ariannol CIC na'n wir gostau parhaus y Cyngor.

**ARGYMHELLIR: Fod y Cyngor yn dyrannau £65,000 i barhau i newid cyplau gwynt ac adferiad**

**strwythurol y Pier.**

**4) Materion Eiddo Eraill**

Gyda'r heriau ariannol sy'n wynebu holl awdurdodau unedol Cymru, gan gynnwys Gwynedd, rhagwelir y bydd adnoddau i wneud gwaith cynnal a chadw anstatudol yn cael eu hymestyn hyd yn oed ymhellach. Rhagwelir felly y bydd dirywiad gwasanaethau yn effeithio ar fannau agored, yn enwedig parciau, meysydd chwarae ac argaeledd toiledau cyhoeddus ar draws y sir. Bydd Cyngor Dinas Bangor, fel llawer o gynghorau cymuned, yn gorfod penderfynu a ddylid derbyn y gwasanaethau llai hyn neu dderbyn yr her yn lleol. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn mae Cyngor y Ddinas wedi neilltuo £25,000 ychwanegol i uwchraddio ei barciau chwarae. Mae trafodaethau wedi cychwyn gyda Gwynedd ynglŷn â chynnal tir a pharciau eraill yn y Ddinas a dyrannwyd £20,000 ychwanegol at y diben hwn.

Daeth cyfleoedd eraill i gaffael tir yn ystod y flwyddyn a chynhwyswyd dyraniadau yn y gyllideb ar gyfer y Gerddi Beiblaidd, a’r tir nesaf at Ffordd Sackville a llwybr bach nesaf at Ffordd Farrar.

Llwyddodd Cyngor y Ddinas i gael grant o £18,000 i adfer y Gerddi Beiblaidd. Derbyniwyd y grant hwn a bydd yn cael ei wario yn 2025-26. Gwnaed cais am grant hefyd i wella’r tir nesaf at Ffordd Sackville. Er na wyddys canlyniad y cais ar hyn o bryd, mae’r gyllideb yn cynnwys swm cychwynnol o £10,000 i ddechrau’r broses o ddatblygu man cymunedol yn y lleoliad hwn. Rhagwelir y bydd tir Ffordd Farrar yn gallu cael ei ymgorffori yn rheolaeth tir presennol y Cyngor heb fuddsoddiad mawr.

Dylai Cyngor y Ddinas fod yn hyblyg ac yn barod i dderbyn unrhyw gyfle sy'n caniatáu iddo wella gwasanaethau i'w gymunedau. Bydd y Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau yn cael mynediad at £6,000 yn ystod 2025-2026 i’w alluogi i ymateb i sefyllfaoedd sy’n datblygu neu i wella asedau’r Cyngor.

**ARGYMHELLIR: bod y Cyngor yn rhoi'r cyfrifoldeb i'r Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau archwilio unrhyw gyfle sy'n codi i wella asedau'r Cyngor, yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol gan y Cyngor. Dyrannu £6,000 i'r pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau i'w ddefnyddio i uchafu gwerth yr asedau a’r adnoddau presennol neu rai ychwanegol.**

Mae'r manylion isod ar eiddo'r Cyngor wedi'u cynnwys fel arweiniad ar ofynion cyllidebol pob ased yn y flwyddyn i ddod ac ni fwriedir iddynt orgyffwrdd â chynlluniau neu fentrau'r Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau.

Yn dilyn arafu yn y gwaith o gynnal a chadw asedau’r Cyngor yn ystod cyfnod Covid, mae’r gwaith bellach wedi dal i fyny ac mae ystâd y Cyngor mewn cyflwr da yn gyffredinol:

- **Stadiwm Pêl-droed Nantporth**. Ar brydles i Nantporth CIC – Cydymffurfir yn llawn â'r brydles hon ac mae'r holl daliadau'n gyfredol. Mae'r CIC, yn dilyn cyflwyno buddsoddiadau ychwanegol, yn ymddangos yn sefydlog ac yn gweithio'n dda.
- **Canolfan Gymunedol Hafan.** Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad yma, mae'r eiddo, a arferai gael ei osod ar brydles i Age Cymru Gwynedd a Môn, yn wag wedi i Age Cymru dynnu'n ôl. Mae'r Cyngor wrthi'n ymchwilio i opsiynau ar gyfer yr eiddo ac mae momentwm yn tyfu i'w agor fel hwb cymunedol. Cafodd yr eiddo ei uwchraddio ddeunaw mis yn ôl drwy raglen deledu 'Prosiect Pum Mil' S4C ac felly ni fydd angen arian mawr i'w ailagor. Fodd bynnag, dyrannwyd cyllideb o £1,000 fel cronfa gychwynnol. Dylid ystyried hon fel rhywbeth ychwanegol at y £12,000 a ddyrannwyd yn barod i'r hwb cymunedol.
- **Tŷ'r Pierfeistr, Garth.** Cwblhawyd gwaith strwythurol ychydig dros flwyddyn yn ôl ac ar wahân i gael drysau patio newydd, mae'r eiddo mewn cyflwr da.
- **Adeilad Gweithdy'r Pier.** Nid oes unrhyw broblemau mawr yma. Mae'r chwilio am storfa arall i ryddhau'r gofod gwerthfawr hwn yn parhau.
- **Cloc y Dref.** Cwblhawyd gwaith i atgyweirio Cloc y Dref ac er bod rhywfaint o waith ychwanegol yn cael ei argymell ni fydd angen hyn am 2-3 blynedd arall. Ni ragwelir unrhyw ofyniad ychwanegol yn ystod 2025-2026.
- **Neuadd y Penrhyn.** Mae adeiledd allanol y neuadd yn gyffredinol mewn cyflwr da. Gosodwyd system wresogi newydd yn ystod y flwyddyn gyfredol. Atgyweiriwyd to'r Neuadd a chytunwyd ar gynlluniau a phrisiau i osod paneli solar, a bydd y rhain, ynghyd â rhoi gwedd newydd ar y neuadd, gyda £25,000 wedi'i ddyrannu, yn rhan o gynlluniau uwchraddio'r flwyddyn sy'n dod. Mae nodweddion eraill y cynllun yn cynnwys carped newydd, ailbeintio'r tu mewn ynghyd â chodi dau bolyn baneri.
- **Parlwr y Maer.** Dim problemau ar hyn o bryd, taclwyd y problemau a welwyd y llynedd a achoswyd gan y to llechi ar y tu blaen ac ailaddurnwyd y parlwr.
- **Swyddfeydd y Cyngor.** Mae'r llawr cyntaf a'r ail lawr uwchben swyddfeydd y Cyngor wedi'u rhannu'n swyddfeydd hunangynhwysol, sy'n rhannu mynedfa gyffredin. Mae'r ddau lawr yn parhau i gael eu rhentu ar sail hollgynhwysol. O ystyried y cynnydd sylweddol mewn costau tanwydd a gwresogi, dylid adolygu'r rhenti hyn yn ystod 2025-2026. Gosodwyd mesurydd clyfar yn ddiweddar i gynorthwyo gyda'r adolygiad o gostau gwresogi. Er bod llawr gwaelod swyddfeydd y Cyngor yn gwneud ei waith, mae wedi dyddio ac nid yw'n portreadu delwedd 'broffesiynol'. Felly, fel yr argymhellwyd (ac y mabwsiadwyd) yn adroddiad y llynedd, cynhwyswyd dyraniad o £10,000 i wella golwg y Swyddfa a gwella'i delwedd i ymwelwyr.
- **Cysgodfannau Bysiau.** Mae atgyweiriadau a phaentio rheolaidd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ac mae rhaglen well o archwilio a chynnal a chadw yn cael ei pharatoi ar gyfer 2025-2029.

**4) Cynnal Coetiroedd.**

Mae Coed Menai yn parhau o dan reolaeth y Cyngor. Mae staff y Cyngor yn cynnal gwiriadau rheolaidd o'r cyffiniau a gofynnir am gyngor arbenigol pryd bynnag y teimlir bod angen hynny. Gwneir gwaith cynnal a chadw yn ôl yr angen.

Gwnaethpwyd rhywfaint o waith sylweddol yn 2022 – 2023 a 2004 - 2005 i fynd i'r afael â'r clefyd coed ynn. Mae'r gwaith cynnal a chadw a adnabuwyd yn flaenorol bellach wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, bwriedir clustnodi £10,000 yn y gyllideb ariannol nesaf i sicrhau pe bai problem yn codi, fod gan y Cyngor yr arian i ddelio â hi yn syth.

**5) Mannau Agored a Llefydd Chwarae**

- **Caeau Ashley Jones.** Gwneir rhywfaint o waith cynnal a chadw yn dymhorol ond yn gyffredinol nid oes angen unrhyw waith ychwanegol arfaethedig nac wedi'i gynllunio ar gyfer y maes hwn. Serch hynny, yn ystod y blynyddoedd nesaf, cynigir fod cyllid yn cael ei ystyried i adnewyddu'r tir hwn a chreu darnau sy'n cael eu rheoli mewn amrywiol ffyrdd.
- **Caeau Dargie.** Mae topograffeg y safle hwn yn cyfyngu ar y defnydd posibl. Fodd bynnag, mae grŵp cymunedol lleol, gyda chefnogaeth Cyngor y Ddinas, wedi mynd ati i reoli'r tir hwn. Mewn enghraifft wych o'r Cyngor a'r gymuned yn gweithio gyda'i gilydd, bu cais ar y cyd rhwng y grŵp a'r Cyngor yn llwyddiannus, a galluogodd hyn wneud buddsoddiad o £5,000 yn y flwyddyn gyfredol. Mae'r buddsoddiad hwn yn helpu i sefydlu perllan gymunedol ar y safle.
- **Llefydd Chwarae.** Mae'r Cyngor yn gyfrifol am le chwarae Storiel. Mae'r gwaith cynnal a chadw yn isel ar y cyfan ond mae angen atgyweirio offer neu brynu eitemau newydd o bryd i'w gilydd oherwydd gorddefnyddio/fandaliaeth. Mae'r Cyngor yn y broses o dderbyn trosglwyddiad ased o faes chwarae Maestryfan, ynghyd â Chae Doctor drws nesaf, gan Gyngor Gwynedd. Grŵp cymunedol Maestryfan fydd yn gyfrifol am reoli'r ddwy ardal yma o ddydd i ddydd, ond gan y Cyngor fydd y cyfrifoldeb cyffredinol dros ddiogelwch a chynnal a chadw'r offer chwarae. Mae gweddill parciau a llefydd chwarae'r Ddinas o dan berchnogaeth a rheolaeth Cyngor Gwynedd, ond, o ystyried y pwysau ariannol sydd ar Gyngor Gwynedd, mae Cyngor Dinas Bangor wedi dechrau trafodaethau ar gymryd drosodd rheolaeth rhai o'r ardaloedd cymunedol hyn. Dyrannwyd £25,000 i barhau i wella'r parciaua'r llefydd chwarae yma.

**ARGYMHELLIR: bod arian yn cael ei neilltuo ar gyfer y gwaith angenrheidiol fel y'i nodir yn atodlenni'r gyllideb.**

**7) Bangor 1500**

Cydnabyddir yn eang mewn cylchoedd crefyddol a hanesyddol fod Bangor wedi'i sefydlu yn ganolfan grefyddol gan Sant Deiniol, a gyrhaeddodd yma ym mis Medi 525 OC. Bu anheddiad yma fyth ers hynny ac er nad Bangor yw anheddiad hynaf yr ardal, dyma'r cyntaf yng Nghymru i gynnwys yr elfennau a fyddai wedyn yn ei ddisgrifio fel 'dinas'.

I nodi'r garreg filltir hon, bwriad Cyngor y Ddinas yw trefnu rhaglen uchelgeisiol o ddigwyddiadau gyda'r amcan o uno'r Ddinas mewn dathlu. Mae hwn yn gyfle delfrydol hefyd i hyrwyddo Bangor i'r ardal ehangach ac yn wir, i weddill Prydain. I baratoi ar gyfer y dathliadau hyn, mae'r Cyngor eisoes wedi cynnal cystadleuaeth i blant blwyddyn 9 a 10 i ddylunio logo, wedi plannu 18000 o gennin Pedr o amgylch y ddinas ac wedi ymgynghori â'r rhan fwyaf o

Fangoriaid 'eraill' ledled y byd. Ar adeg ysgrifennu, mae arddangosfa newydd agor yn Storiel, a fydd, dros y deuddeg mis nesaf, yn tynnu sylw at fanylion y gwahanol Fangoriaid. Agorwyd rhaglen Bangor 1500 gan Gadeirlan Deiniol Sant, ar Sul cyntaf yr Adfent, dechrau'r flwyddyn grefyddol, gyda gwasanaeth a fynychwyd gan holl Esgobion Cymru o dan arweiniad Archesgob Cymru.

Bwriedir dyrannu cyllideb sylweddol i raglen digwyddiadau'r 1500 mlwyddiant ac i ategu at y gyllideb hon drwy nawdd preifat a gwneud cais i Gyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru am gymorth.

Mae pum prif ddigwyddiad yn y rhaglen a fydd yn cael eu harwain a'u hariannu gan Gyngor y Ddinas, a chyfres o ddigwyddiadau llai a fydd angen cyllid allanol neu'n talu amdanynt eu hunain. Mae'r prif ddigwyddiadau yn cynnwys; gorymdaith fawr ym mis Mai, penwythnos ail-greu ym mis Mehefin, yr ŵyl haf yn Awst, gŵyl Hanes ym mis Hydref a gŵyl Nadolig 2025. Dyrannwyd £20,000 yr un ar gyfartaledd i'r digwyddiadau hyn. Cyllidebwyd £10,000 arall ar gyfer offer, yn cynnwys prynu pabell fawr ail law ac ystyriwyd hefyd y marchnata, cyhoeddusrwydd a'r adnoddau staff ychwanegol. Cynhwyswyd £10,000 arall i helpu gyda'r digwyddiadau llai a fydd fwy neu lai yn eu hariannu eu hunain, a fydd yn cynnwys; sgyrsiau gan reolwyr timau cenedlaethol dynion a merched pêl-droed Cymru, gŵyl gwrw, noson gomedi, gŵyl gerddoriaeth gwerin ayb.

**ARGYMHELLIR: rhoi arian naill ochr ar gyfer y rhaglen uchelgeisiol o ddigwyddiadau a fydd yn dod â'r Ddinas ynghyd i ddathlu a hyrwyddo Bangor i'r gymuned ehangach a'r wlad i gyd.**

**8) Cynlluniau Canol y Dref**

Mae Stryd Fawr Bangor yn parhau i brofi cyfnod heriol ond mae egin adferiad i'w gweld yn amlwg. Gwnaeth gwaith y grant Trawsnewid Trefi ar ddechrau 2024 wahaniaeth mawr i olwg canol Bangor, ochr yn ochr â chynlluniau eraill, yn cynnwys cael gwared â'r seddi o flaen y Gadeirlan a oedd yn fan cyfarfod i rai cymeriadau annymunol. Fel y soniwyd uchod mae Grŵp Llandrillo Menai yn agor Canofan Addysg Oedolion ar y Stryd Fawr, a fydd hefyd yn gartref i Ganolfan Cyngor Cyfreithiol y Brifysgol, mae gwaith wedi dechrau ar hen adeilad Peacocks i'w drosi yn swyddfeydd a llety, mae chwe busnes newydd wedi agor eu drysau mewn adeiladau a arferai fod yn wag ar y Stryd Fawr, prynwyd Canolfan Deiniol gan berchennog newydd, sydd â phrofiad o fod yn berchen ar ganolfannau siopa eraill mewn rhannau eraill o Ogledd Orllewin Prydain, ac mae canolfan Menai yn parhau i ddenu busnesau, rhai oddi ar y Stryd Fawr ond rhai gwerthfannau newydd. Ar ben hyn, y newyddion diweddaraf yw bod yr hwb meddygol arfaethedig yn mynd rhagddo, yn araf, ac yn y pen draw bydd yn arwain at 400 o staff meddygol yn gweithio yng Nghanolfan Menai.

Mae sawl adeilad sydd yn dal i dynnu delwedd y Ddinas i lawr, fel hen adeilad Relics a phedwar adeilad ger Stryd y Deon, tri ohonynt wedi'u gorchuddio â phalisau erbyn hyn sy'n rhywfaint o welliant. Mae Cyngor Gwynedd yn ceisio cymryd rhan fwy gweithredol mewn gorfodi rheolaethau adeiladu a dylai hyn weld gwelliant i rai o'r unedau gwag yma.

- **Y Farchnad Wythnosol**

  Mae'r farchnad wythnosol yn parhau i ddenu cwynion rheolaidd gan fanwerthwyr ynglŷn â'r nifer a'r math o ddeiliaid stondinau sy'n gweithredu yn y farchnad, sydd, fe honnir, yn cael effaith andwyol ar fusnesau sefydlog. Fodd bynnag, mae'n amlwg hefyd fod y farchnad yn atyniad sy'n denu pobl i'r Ddinas.

- **Grŵp Strategol Bangor**
  Mae Grŵp Strategol Bangor wedi'i ailgyfansoddi'n ddiweddar a bydd yn cyfarfod bob chwarter i ddod â'r rhanddeiliaid allweddol at ei gilydd gyda golwg ar gynorthwyo adfywiad y ddinas.

- **Ardal Gwella Busnes Bangor (BID)**
  Mae Cyngor y Ddinas bellach yn cyfathrebu'n rheolaidd â Bangor yn Gyntaf (yr Ardal Gwella Busnes gynt) ac, yn dilyn gwahoddiad gan y Cyngor, mae rheolwr y BID yn gweithio o Swyddfeydd y Cyngor. Mae hyn wedi arwain at well cyfathrebu a'r BID a'r Cyngor yn gweithio ar gynlluniau a phrosiectau ar y cyd.

- **Cais Grant Creu Lleoedd Llywodraeth Cymru**
  Fel yr adroddwyd yn flaenorol, bu Cyngor y Ddinas yn llwyddiannus yn ei gais am grant Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru. Roedd y grant hwn, yn caniatáu ar gyfer gwella ymddangosiad y Stryd Fawr, gydag uwchraddio gwerth £140,000. Y bwriad oedd mai hwn fyddai'r cam cyntaf.
  O ran Cam Dau – dyrannwyd £10,000 o'r grant blaenorol i benodi pensaer tirwedd i edrych ar ffyrdd ychwanegol o wella'r Stryd Fawr ac mae'r gwaith yma wedi dechrau erbyn hyn. Disgwylir adroddiad gan y pensaer tirwedd yn ystod 2025-2026. Wedi derbyn yr adroddiad, dylai'r Cyngor chwilio am gyllid grant i wneud y gwaith a nodir.

  **ARGYMHELLIR: bod y Cyngor yn helpu i adnabod camau pellach i wella'r Stryd Fawr a chanfod ffynonellau cyllid.**

- **Caffael eiddo ar y Stryd Fawr**
  Gyda'r amrywiaeth o gynlluniau a busnesau newydd a welir yn cael eu sefydlu ar y Stryd Fawr, fel yr adroddwyd uchod, mae'r cymhelliant dros gaffael eiddo ar y Stryd Fawr wedi gostwng. Fodd bynnag pe bai'r cyfle'n dod i brynu eiddo sy'n tynnu oddi ar y tueddiad presennol, megis hen adeilad Relics, dylai'r Cyngor fod yn agored i adolygu'r polisi hwn.

**8) Staffio**

Bellach mae gan y Cyngor gyflenwad llawn amser o staff cymorth. Mae'r Cyfarwyddwr Dinesig yn gymwys i safon CiLCA. Bu rhai newidiadau o fewn y staff gweinyddol. Fodd bynnag, mae'r gweinyddwr llawn amser, sydd eisoes wedi cymhwyso o safon ILCA wedi dechrau ar ei gymhwyster CiLCA. Mae hyn yn argoeli'n dda i ddyfodol y Cyngor a pharhad staff.

Cynigodd Swyddog Prosiect y Cyngor ohirio ei ymddeoliad tan ddiwedd Hydref 2025 fel ei fod yn bresennol i helpu gyda'r dathliadau 1500 a i gwblhau'r gwaith strwythurol ar y Pier yn yr haf yn cynnwys y cyplau gwynt. Bydd hyn yn golygu cryn arbediad ariannol i'r Cyngor, o ystyried y byddai cost penodi rhywun yn ei le, naill ai'n uniongyrchol neu drwy gontractwr dipyn yn ddrutach mae'n debyg. Yn y dyddiau diwethaf, mae YGC wedi cytuno i weithio gyda'r Cyngor yn dilyn ymddeoliad y Swyddog Prosiect.

Ni fydd effaith lawn ymddeoliad y Swyddog Prosiect ar gyllid y Cyngor yn cael ei weld tan flwyddyn ddinesig 2026-2027, gan nad oes fawr o waith uwchraddio yn digwydd ar y Pier ym misoedd y gaeaf. Serch hynny, dyrannwyd £27,500 i wynebu cost gwiriadau diogelwch ychwanegol yn ystod y cyfnod hwn. Dylai'r Cyngor fod yn ymwybodol y dylid cynnwys dyraniad uwch ym mlwyddyn ariannol 2026-2027 i dalu am y costau ychwanegol o gael goruchwyliaeth ar y Pier gan YGC.

Mae un o ddau swyddogion cynnal a chadw llawn amser y Cyngor hefyd i fod i ymddeol, y tro hwn ym mis Mehefin. Yn yr un modd mae ef wedi cynnig aros tan ddiwedd y tymor glasu yn yr Hydref. Penodwyd trydydd swyddog cynnal a chadw dros dro yn y flwyddyn gyfredol a chynigir ymestyn y cytundeb hwn i helpu i hwyluso'r gwaith ychwanegol a ddisgwylir, a gobeithio wedyn y bydd yn dod yn lle'r Swyddog sy'n bwriadu ymddeol.

A**RGYMHELLIR: Y Cyngor i gymeradwyo'r estyniadau staff a dyrannu arian i gael rhywun yn lle'r Swyddog Prosiect fel y manylwyd uchod.**

**Martin Hanks** **Ionawr 2026**
Cyfarwyddwr Dinesig/SAC

## DYDDIADAU CYFARFODYDD 2024 - 2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2024 | Mai | 12fed | **CYFARFOD BLYNYDDOL** |
| | Mehefin | 9fed | Cyfarfod y Cyngor |
| | Mehefin | 24ain | Cyfarfod y Cyngor |
| | Gorffennaf | 14eg | Pwyllgor |
| | Medi | 8fed | Cyfarfod y Cyngor |
| | Hydref | 13eg | Pwyllgor |
| | Tachwedd | 10fed | Cyfarfod y Cyngor |
| | Rhagfyr | 8fed | Pwyllgor |
| 2025 | Ionawr | 12fed | Cyfarfod y Cyngor |
| | Chwefror | 9fed | Pwyllgor |
| | Mawrth | 9fed | Cyfarfod y Cyngor |
| | Ebrill | 13eg | Cyfarfod y Cyngor |
| | Mai | 11eg | **CYFARFOD BLYNYDDOL** |

*Cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid yn union cyn Cyfarfodydd y Cyngor llawn am 5.30 pm ar y dyddiadau a nodir yn y rhestr hon oni nodir yn wahanol.*